

## DON LLYWELYN yn adrodd hanes

## LLEWELYN MORRIS HUMPHREYS ARWR AMHEUS

Pan oedd Emyr Humphreys, yr awdur, a Huw Humphreys Davies, cynhyrchydd teledu, yn yr Unol Daleithiau yn y saith degau fe ddaethant ar draws hanes dyn oedd â chyfenwr yr un fath â hwythau ac ar unwaith yr oeddynt yn gaeth i'r testun. Tan hynny, prin iawn oedd gwybodaeth am y *gangster* ac yn bendant doedd neb wedi cysylltu dyn a fu'n un o droseddwr mwyaf pwerus y byd gyda'n gwlad fach ni!

Ganed Llewellyn Morris Humphreys yn Chicago yn 1899 i rieni Cymraeg eu hiaith o Sir Drefaldwyn. Ei dad oedd Brian Humphreys, mab fferm Y Castell yng Ngharno, a'i fam oedd Ann Wigley o lechweddi Pumlumon gerllaw. Priodwyd hwy yng Nghapel China Street, Llanidloes. Yn fuan, fe ymfudon i'r Byd Newydd i chwilio am gyfoeth, ond dim ond tloidi chwerw a gawsant yn wobwr am eu hantur. Ni chafodd eu mab yr



Llewellyn Morris Humphreys — 'Murray the Hump'

16 oed newidiodd ei enw o Morris i 'Murray' ar ôl barnwr a fu'n garedig wrtho. Trwy gydol ei fywyd fe ddenodd nifer anarferol o lysenwau yn cynnwys 'The Hump', 'The Camel', 'Curly', 'Moneybags' a hyd yn oed 'Einstein of the Mob'. Dyn

ddiweddar) lawer o dystiolaeth amlwg am ei ran yn isfyd troseddol America. Erbyn heddiw, mae'n cael ei gydnabod fel un o'r dynion mwyaf dylanwadol mewn sawl agwedd o hanes y wlad honno. Ei swydd ef oedd llygru gwleidyddion a

pawb oedd yn ei adnabod), does dim amheuaeth fod bygythiadau aruthrol yn rhan o'i stôr arfau. Yn ei ddyddiau cynnar roedd yn gyfrifol am lofruddiaethau dychrynlyd â'i ddwylo ei hun. Yn ddiweddarach, gorchmynnodd farwolaethau di-ri' gan ddwylo eraill. Erbyn heddiw mae rhai yn barod iawn i gredu mai ef a gynlluniodd y 'St. Valentine's Day Massacre' yn 1929 pan saethwyd saith o gnud Bugs Moran, archelyn Capone. Digwyddodd hynny mewn *garage* heb fod lawer pellach nag ugain llath o'r tŷ lle ganwyd Humphreys. Byddai dewis lleoliad o'r fath yn gyson â'i ddioreidi arferol.

Blodeuodd y bartneriaeth rhyngddo ef a Capone (ac eraill, rhaid dweud) yn ystod cyfnod y 'Gwaharddiad'. Bu cerbydau Joe Kennedy yn cludo 'hooch' dros y ffin o Ganada, a sawl un ohonynt yn cael eu dinistrio gan ffrwydrion Capone a'r 'Hump'.



Mam a thad Llewellyn Morris Humphreys



Huw Davies a Don Llywelyn (yr awdur) o flaen y castell.

un diwrnod o ysgol ar ôl cyrraedd ei seithfed blwyddyn. Daeth ei addysg ef o wylltineb strydoedd digyfraith Chicago lle'r oedd goroesi yn dibynnu'n llwyr ar ymladd. Cyn bo hir, sylweddolodd fod ganddo well arf na dynau i ennill ei damaid, sef ei ymennydd. Wrth gyrraedd

golygus ydoedd, a hefyd, yn ôl ei gyfoedion, ei gyfrinach fwyaf oedd ei benderfyniad i gadw o'r golau. Yn ei dyb ef, roedd rhai o'i gydweithwyr yn rhy awyddus i ymfrostio yn eu llwyddiannau. Fe lwyddodd Humphreys i'w gadw ei hunan yn y cysgodion a dyna paham nad oedd (tan yn

chwyfreithwyr, ac yn enwedig arweinwyr yr undebau. Roedd, rywsut, yn hawdd syrthio dan rym ei bersonoliaeth swynol. Mae'n rhyfedd fod cymaint yn barod i'w ganmol er gwaethaf yr holl greulondeb a orchmynnwyd ganddo. Er bod ganddo rinweddau niferus (yn ôl bron

Byddai Kennedy yn ymateb yn yr un modd yn erbyn eu cerbydau hwythau. Pan daflwyd Capone i'r carchar yn 1931 am osgoi talu treth incwm fe ddisgrifiwyd Humphreys yn y papurau fel 'Public Enemy Number One'. Dim ond unwaith y carcharwyd Humphreys (yn



Y castell.



Cyflafan Dydd Sant Ffolant.